# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 6

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Dyletswyddau lletya*

### 75 Dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal

(1) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau sy'n sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu i'r plant a grybwyllir yn is-adran (2) lety sydd—

(a) o fewn ardal yr awdurdod, a

(b) yn diwallu anghenion y plant hynny.

(2) Y plant y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw'r rhai—

(a) y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt,

(b) nad yw'r awdurdod yn gallu gwneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 81(2), ac

(c) y mae natur eu hamgylchiadau yn golygu y byddai'n gyson â llesiant y plant i lety sydd yn ardal yr awdurdod gael ei ddarparu iddynt.

(3) Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1), rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i fantais cael—

(a) nifer o ddarparwyr llety yn ei ardal sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswydd, a

(b) ystod o lety yn ei ardal a allai ddiwallu anghenion gwahanol ac sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon iddo gyflawni ei ddyletswydd.

(4) Yn yr adran hon ystyr "darparwyr llety" yw—

(a) rhieni maeth awdurdod lleol, a

(b) cartrefi plant.